Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

3 Mehefin 2008

Dysgwyr yn y gwaith yn elwa ar strategaethau clir wrth ennill medrau allweddol

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi prif ganfyddiadau ei arolwg heddiw ar y strategaethau y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu defnyddio i wella cyflawniad dysgwyr mewn medrau allweddol o fewn fframweithiau cymhwyster. Canfu Estyn fod defnyddio'r strategaethau hyn wedi arwain at gyrhaeddiad gwell mewn medrau allweddol.

Amlygodd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006, y ffaith na wnaeth dros hanner y dysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill eu cymwysterau. Ni wnaeth digon o ddysgwyr gwblhau'r medrau allweddol a'r tystysgrifau technegol yr oedd eu hangen arnynt i ennill y fframwaith hyfforddi cymhwyster llawn ar gyfer Prentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) neu Brentisiaeth Fodern (PF). O ganlyniad, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn gynnal arolwg.

'Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwelliant sylweddol wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'r medrau allweddol er mwyn ennill eu prentisiaeth' meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae darparwyr dysgu yn y gwaith wedi rhoi llawer o strategaethau effeithiol ar waith i wella cyflwyno a chyrhaeddiad medrau allweddol mewn fframweithiau cymhwyster.

Mae darparwyr hefyd wedi gweithio'n agos â chyflogwyr i nodi rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chasglu tystiolaeth medrau allweddol yn eu gwaith bob dydd.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion gan gynnwys y canlynol:

- dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i roi cymorth a hyfforddiant parhaus ar gyfer medrau allweddol er mwyn helpu darparwyr dysgu yn y gwaith i wella ansawdd eu hyfforddiant a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n ennill fframweithiau cymhwyster;

- dylai'r Cynulliad hefyd wneud yn siwr bod trefniadau contractio cadarn ar waith gyda darparwyr dysgu yn y gwaith i sicrhau cyrhaeddiad mewn fframweithiau cymhwyster; a

- dylai darparwyr dysgu yn y gwaith wneud yn siwr bod hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, gan gynnwys medrau allweddol, yn rhan orfodol o raglenni dysgu. Rhaid i ddarparwyr osod targedau heriol i ddysgwyr gwblhau medrau allweddol a gwella mynediad dysgwyr i gyfleusterau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Strategaethau effeithiol er mwyn i ddysgwyr ennill medrau allweddol mewn fframweithiau cymhwyster', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r strategaethau a ddefnyddir i wella cyflawniad dysgwyr o ran medrau allweddol mewn fframweithiau cymhwyster.

Dyma'r medrau allweddol:

- Cymhwyso Rhif;
- Cyfathrebu;
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun;
- Gweithio Gydag Eraill; a
- Datrys Problemau.

Mae Fframweithiau Cymhwyster:

- yn bodloni gofynion y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer pob sector dysgu. Rhaid i ddysgwyr ennill un cymhwyster medrau allweddol neu dystysgrif dechnegol neu fwy yn ogystal â Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol er mwyn cyflawni fframwaith cymhwyster llawn.

- Ymwelodd arolygwyr Estyn ag 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith lle gwnaethant siarad â rheolwyr a staff er mwyn nodi unrhyw enghreifftiau o arfer dda, a chynhaliwyd cyfweliadau â dysgwyr a chyflogwyr i archwilio pa mor dda yr oeddent yn deall gofynion medrau allweddol a sut roedd y rhain yn cael eu datblygu a'u hasesu yn ystod rhaglenni dysgu.

- Mae astudiaethau achos amrywiol ar gael yn yr adroddiad llawn.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lisa Jordaan
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464